# Polisi Caniatâd Diogelu Data

| | |
|---|---|
| **Fersiwn** | V2 2021 |
| **Awdur** | Derek O'Connor / Sue Parekh |
| **Cymeradwywyd gan:** | Yr Uwch Dîm Rheoli |
| **Dyddiad Cymeradwyo:** | Mai 2018 |
| **Dyddiad yr adolygiad nesaf:** | Mai 2024 |
| **Dyddiad Adolygu'r Gymeradwyaeth:** | |
| **Lleoliad y Ffynhonnell:** | Rheolwr Llywodraethu S, (GDPR) |
| **Lleoliad wedi'i gyhoeddi (cynnwys dolen we berthnasol ac ati)** | http://intranet.corp.conwy.gov.uk/en/Main/Information-Governance-Unit/Information-Governance-Unit.aspx |
| **Dyddiad Cwblhau Asesiad Effaith:** | Amherthnasol |

**Dogfennau Corfforaethol eraill y dylid cyfeirio atynt:**

- Polisi Diogelu Data
- Polisi Diogelwch Gwybodaeth
- Polisi Diogelwch TG
- Polisi Cais Gwrthrych am Wybodaeth
- Datganiad Hawliau Gwrthrych Y Data
- Polisi Cyfrinachedd
- Gweithdrefn Hysbysiad Preifatrwydd
- Polisi Cofnodi Galwadau a Fideos
- Amserlenni Cadw Gwybodaeth
- Gweithdrefn Achos Data a Thoriad
- Polisi Asesiad o Effaith Diogelu Data
- Datganiad gweithio o adref / gweithio ystwyth

## Crynodeb

### Am beth mae'r polisi yn sôn?

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn defnyddio caniatâd fel amod cyfreithiol ar gyfer prosesu data personol.

### Ar gyfer pwy mae'r polisi hwn?

Mae'r polisi hwn ar gyfer yr holl staff, contractwyr, gweithwyr asiantaeth ac aelodau etholedig.

### Sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn sicrhau fod pawb yn cadw at y Polisi?

Rhaid i holl staff ac aelodau etholedig gwblhau modiwl hanfodol ar-lein ar reoli gwybodaeth er mwyn dangos eu bod yn deall y ddeddfwriaeth diogelu data.  Mae Diogelu Data yn rhan o'r telerau cytundebol gyda chontractwyr a gweithwyr asiantaeth.

### Pwy i gysylltu â nhw os oes gennyf unrhyw gwestiynau am y polisi hwn?

Derek O'Connor
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth
Ffôn: 01492 574016
E-bost: info-gov.unit@conwy.gov.uk

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data yn gofyn i ddata personol i gael ei brosesu yn gyfreithlon, teg ac mewn modd tryloyw. Mae 6 o amodau y gellir eu defnyddio i brosesu data personol yn gyfreithlon. Mae'r polisi yn berthnasol i ddim ond un o'r amodau hynny, - bod gwrthrych y data yn rhoi caniatâd. Mae'r polisi hefyd yn trafod y goblygiadau a geir wrth ddewis yr amod caniatâd. Mae'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data newydd yn gosod safon uwch am ganiatâd na'r ddeddfwriaeth flaenorol, ac yn ei ddiffinio fel

***"unrhyw fynegiad penodol, gwybodus ac eglur wedi'i roi o'u gwirfodd o ddymuniadau gwrthrych y data lle maent, drwy ddatganiad neu weithred gadarnhaol amlwg, wedi dynodi eu bod yn rhoi caniatâd i brosesu data personol sydd yn berthnasol iddyn nhw."***

Mae'r Cyngor angen ystyried yn ofalus os mai caniatâd yw'r sail gyfreithiol fwyaf priodol ar gyfer prosesu data. Dim ond un sail gyfreithlon yw caniatâd ar gyfer prosesu **a dylid ei ddefnyddio dim ond pan nad oes angen defnyddio sail gyfreithiol arall.** Dylai awdurdodau cyhoeddus, cyflogwyr a sefydliadau eraill mewn safle o bŵer dros unigolion osgoi dibynnu ar ganiatâd oni bai y gallent arddangos yn hyderus fod y caniatâd yn **cael ei roi o'u gwirfodd** - yn defnyddio'r diffiniad uchod.

## 2. Nodau'r Polisi

Mae'r polisi yn nodi pa amgylchiadau y dylai'r Cyngor ddibynnu ar ganiatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol a sensitif.

## 3. Cwmpas

Yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data newydd, mewn rhai amgylchiadau bydd angen caniatâd gan wrthrych y data i brosesu eu data personol.

## 4. Diffiniadau

| | |
|---|---|
| **Gwrthrych y Data** | Yr unigolyn y mae'r data personol yn ymwneud ag ef/hi |
| **Caniatâd** | Derbyn caniatâd gwrthrych y data i brosesu eu data personol ar gyfer y diben penodedig. **(Ni ddylid ond defnyddio caniatâd lle nad yw unrhyw sail gyfreithlon arall yn briodol)**. |
| **Data Personol** | Gwybodaeth yn berthnasol i unigolion canfyddadwy fel cleientiaid, cwsmeriaid, ymgeiswyr swydd, cyflogeion presennol a chyn-gyflogeion, aelodau etholedig presennol a chyn aelodau etholedig, staff asiantaeth, cytundeb a staff eraill, cyflenwyr a chysylltiadau marchnata.<br><br>*Gall data personol yr ydym yn ei gasglu gynnwys: manylion cyswllt unigolion, cefndir addysgol, manylion ariannol a thâl, manylion tystysgrifau a diplomâu, addysg a sgiliau, statws priodasol, cenedligrwydd, teitl swydd a CV. (Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn)* |
| **Categorïau arbennig** | Mae data categorïau arbennig yn cynnwys gwybodaeth am darddiad ethnig neu hil unigolyn, safbwyntiau gwleidyddol, daliadau crefyddol neu debyg, aelodaeth undebau llafur (neu ddim aelodaeth), iechyd meddwl neu gorfforol neu gyflwr, troseddau, neu achosion llys perthnasol.<br><br>*Bydd unrhyw ddefnydd o ddata categorïau arbennig yn cael ei reoli yn llym yn unol â'r polisi hwn. Categorïau arbennig yn cynnwys biometreg, DNA, cydnabyddiaeth wynebol ac ôl bys.* |
| **Rheolydd Data a Phrosesydd Data** | Y person (neu'r sefydliad) yw'r rheolydd data sy'n penderfynu at ba ddibenion y bydd unrhyw ddata personol yn cael ei brosesu, a'r modd y gwneir hyn.<br>Yn cyferbynnu, mae prosesydd data yn rhywun sydd yn prosesu data personol ar ran y rheolydd data (ac eithrio cyflogeion y rheolydd data) |

## 5. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol gyda chaniatâd.

### Data Personol

Dim ond un sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol yw caniatâd, mae pum sail arall posib y gall y Cyngor ddibynnu arnynt. Dylech wastad ddewis y sail gyfreithiol sydd fwyaf tebyg o adlewyrchu natur go iawn berthynas y Cyngor gyda'r unigolyn a'r pwrpas ar gyfer prosesu.

Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn nodi: ni fydd prosesu ond yn gyfreithlon os yw ac i'r fath raddau lle mae o leiaf un o'r canlynol yn berthnasol:-

**a) Caniatâd:** mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd amlwg i chi i brosesu eu data personol at ddiben penodol. **(Ni ddylid ond defnyddio caniatâd lle nad yw unrhyw sail gyfreithlon arall yn briodol)**.
**(b) Cytundeb:** mae'r prosesu yn hanfodol ar gyfer cytundeb sydd gennych gyda'r unigolyn, neu am eu bod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn dod i mewn i gytundeb.
**(c) Goblygiad cyfreithiol:** mae'r prosesu yn hanfodol er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith (ddim yn cynnwys goblygiadau cytundebol).
**(d) Buddiannau hanfodol:** mae angen prosesu'r data i ddiogelu bywyd rhywun.
**(e) Tasg gyhoeddus:** mae angen prosesu'r data i chi berfformio tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich gweithgareddau swyddogol, a bod gan y dasg neu weithgaredd sail amlwg mewn cyfraith.
**(f) Buddiannau cyfreithiol:** mae angen prosesu'r data ar gyfer eich buddiannau cyfreithiol neu fuddiannau cyfreithiol trydydd parti oni bai fod rheswm da i ddiogelu data personol unigolyn sydd yn gwrthwneud y buddiannau cyfreithiol hynny. (Nid yw hyn yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yn prosesu data i gyflawni tasgau swyddogol.)

Ceisiwch gyngor pan fyddwch/os byddwch yn ystyried (f) uchod, nid yw'n amod a fyddai fel arfer ar gael i CBSC.

### Data Categorïau Arbennig

Yn yr un modd, mae caniatâd penodol yn un ffordd o gyfreithloni prosesu data personol categori arbennig ond nid yr unig ffordd o wneud hynny. Mae naw amod arall i brosesu. Mae'r amodau eraill ar gyfer prosesu data categori arbennig ar y cyfan yn fwy cyfyngol ac wedi'u teilwra i amgylchiadau penodol.

a) **Caniatâd penodol gan wrthych y data,** oni bai fod dibynnu ar ganiatâd wedi cael ei wahardd gan yr UE neu gyfraith Aelod-Wladwriaeth**.**
b) Hanfodol ar gyfer **cyflawni goblygiadau** o dan gyfraith cyflogaeth, nawdd cymdeithasol neu ddiogelu cymdeithasol, neu gydgytundeb.
c) Hanfodol **i ddiogelu buddiannau hanfodol** gwrthrych y data sydd methu yn gorfforol neu'n gyfreithiol i roi caniatâd – mae hyn yn gyfwerth â'r geiriad yn y Deddf Diogelu Data.

d) Prosesu wedi'i wneud fel rhan o'i **weithgareddau cyfreithlon gyda gweithdrefnau diogelu priodol** gan gorff dielw gyda nod gwleidyddol, athronyddol, crefyddol neu undeb llafur ar yr amod fod y prosesu yn berthnasol ddim yn unig i aelodau neu gyn-aelodau (neu'r rheini sydd â chyswllt rheolaidd ag ef mewn perthynas â'r dibenion hynny) ac ar yr amod nad oes datgeliad i drydydd parti heb ganiatâd.

**e)** **Cyhoeddwyd y data yn gyhoeddus** gan wrthrych y data

f) Hanfodol ar gyfer y **sefydliad, ymarfer neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol** neu lle mae llysoedd yn gweithredu o ran eu cymhwysedd ynadol.

g) Hanfodol ar gyfer rhesymau sydd er budd sylweddol y cyhoedd ar sail cyfraith Aelod-Wladwriaeth neu Undeb sydd yn gymesur â'r nod y dilynir ac sydd yn cynnwys mesurau diogelu priodol - mae hyn yn golygu bod Aelod-Wladwriaeth yn gallu ymestyn yr amgylchiadau lle gellir prosesu data sensitif er budd y cyhoedd.

h) Yn hanfodol ar gyfer dibenion **meddygaeth alwedigaethol neu ataliol** ar gyfer cael mynediad i gymhwysedd gwaith y cyflogai, diagnosis meddygol, darpariaeth iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli iechyd neu systemau a gwasanaethau gofal cymdeithasol ar sail cyfraith Undeb neu Aelod-Wladwriaeth neu gytundeb gydag unigolyn proffesiynol yn y byd iechyd.

i) Yn hanfodol ar gyfer **rhesymau er budd y cyhoedd ym maes iechyd y cyhoedd**, fel diogelu yn erbyn bygythiadau trawsffiniol i iechyd a sicrhau safonau uchel o ofal iechyd ac unrhyw gynnyrch meddygol neu ddyfeisiadau meddygol.

j) Yn hanfodol at **ddibenion archifo er budd y cyhoedd, neu ddibenion ymchwil gwyddonol a hanesyddol**, neu ddibenion ystadegol.

**Nid** yw caniatâd yn briodol:

- Os bydd y Cyngor yn dal i brosesu data personol heb ganiatâd.
- Os yw'r prosesu yn cynnwys perfformiad cytundeb sydd yn cynnwys darparu gwasanaeth.
- Os oes anghysondeb pŵer rhwng y Cyngor a gwrthrych y dataEr enghraifft, y rheiny sy'n dibynnu ar ein gwasanaethau efallai yn teimlo nad oes ganddynt ddewis ond cytuno.

## 6. Cael caniatâd

I gael caniatâd dilys a chyfreithlon rhaid:-

1. Ei gael o wirfodd gwrthrych y data a bod ganddynt ddewis a rheolaeth go iawn dros y ffordd y mae eu data'n cael ei brosesu.
2. Bod yn amlwg, ar wahân i delerau ac amodau eraill, yn gryno ac yn hawdd i'r darllenydd y bwriedir ei ddarllen
3. Bod yn amlwg ac angen gweithredu cadarnhaol i ymuno.
4. Bod wedi adolygu ac adfywio yn unol â dibenion y prosesu.
5. Bod mor hawdd i'w dynnu'n ôl ag yr oedd ei gael.

**Enghreifftiau o ba bryd/ble gallai caniatâd gael ei ystyried**

a) Mae cyngor lleol yn rhedeg nifer o ganolfannau ffitrwydd. Mae am gael gwybod barn pobl ar y cyfleusterau er mwyn penderfynu ar beth y dylid canolbwyntio gwelliannau. Mae'n penderfynu anfon holiadur ar e-bost at unigolion sy'n aelodau o'r canolfannau i'w holi ynglŷn â'r cyfleusterau.

   Mae'r penderfyniad i gymryd rhan yn yr arolwg ai peidio'n gwbl ddewisol, ac o ystyried natur y berthynas a'r arolwg, nid oes unrhyw risg wirioneddol o oblygiadau niweidiol am fethu ag ymateb. Gallai'r cyngor ystyried dibynnu ar ganiatâd i brosesu'r ymatebion.

b) Mae cyflogwr yn penderfynu creu fideo recriwtio ar gyfer ei wefan. Mae wedi cael actorion proffesiynol ond mae hefyd yn rhoi cyfle i staff wirfoddoli i fod â rhan yn y fideo. Mae'r cyflogwr yn egluro nad oes raid i unrhyw aelod o staff gymryd rhan o gwbl ac na fydd cymryd rhan yn cael ei ystyried at ddibenion gwerthuso perfformiad.

   Gan mai dewis yw cymryd rhan ac nad oes unrhyw oblygiadau niweidiol i'r rhai nad ydynt yn dymuno cymryd rhan, gallai'r cyflogwr ystyried caniatâd.

**Sut i gael caniatâd a'i reoli:**

- Gwnewch ganiatâd yn amlwg, cryno ond cynhwysfawr ac mewn iaith glir sy'n hawdd ei deall.
- Hysbysu gwrthrych y data o enw'r rheolydd (h.y. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ac unrhyw gyd-reolydd. Hysbyswch nhw o ddiben y prosesu, sut y mae'r data yn cael ei brosesu a bod ganddynt yr hawl i dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.
- Rhowch gyfarwyddiadau clir ar sut y gall yr unigolyn dynnu eu caniatâd yn ôl.
- Cofiwch – rhaid i unigolion *ymuno'n* weithgar.
- Peidiwch â defnyddio bocsys wedi'u ticio'n barod neu focsys tynnu'n ôl.
- Pan fo angen rhowch opsiynau gronynnol i roi caniatâd ar wahân i ddibenion gwahanol a mathau gwahanol o brosesu.

Pan mae prosesu yn seiliedig ar ganiatâd rhaid i'r Cyngor allu arddangos bod gwrthrych y data wedi rhoi caniatâd i brosesu eu data personol trwy gynnal cofnodion o:-

- Pwy sydd wedi rhoi'r caniatâd (enw a llofnod os oes angen).
- Pryd derbyniwyd y caniatâd (dyddiad).
- Yr hyn y dywedwyd yn union ar yr adeg honno.
- Pryd y tynnwyd y caniatâd yn ei ôl.

**Y gallu i roi caniatâd**

Os nad oes gan gwrthrych y data y gallu i ddeall canlyniadau rhoi caniatâd bydd gan drydydd parti hawl gyfreithiol i wneud penderfyniadau ar eu rhan (h.y. o dan Bŵer Atwrneiaeth) y gallu i roi caniatâd ac i ddefnyddio hawliau gwrthrych y data.

**Plant**

Os ydych yn dibynnu ar ganiatâd fel eich sail cyfreithiol i broses data personol plentyn, dim ond plant 13 oed neu hŷn sy'n gallu darparu caniatâd eu hunain.
Ar gyfer plant o dan yr oedran hwn mae'n rhaid cael caniatâd gan bwy bynnag sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sy'n warchodwr i'r plentyn.

Os byddwn yn dibynnu ar ganiatâd mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr fod y plentyn yn deall ar gyfer beth y maent yn rhoi caniatâd ac nad ydym yn manteisio ar unrhyw anghydbwysedd mewn pŵer yn y berthynas rhyngom.

Mae plant angen gwarchodaeth benodol pan fyddwch yn casglu ac yn prosesu eu data personol oherwydd fe allent fod yn llai ymwybodol o'r risgiau sydd ynghlwm. Os byddwch yn prosesu data personol plant yna fe ddylech ystyried yr angen i'w hamddiffyn o'r cychwyn, a chreu eich systemau a'ch prosesau gan gadw hyn mewn cof.

Dylai cydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data, a thegwch yn benodol, fod yn greiddiol i'ch holl waith yn prosesu data personol plant. Mae arnoch angen sail gyfreithiol i brosesu data personol plentyn. Mae caniatâd yn un sail gyfreithiol bosib' i'w brosesu, ond nid dyma'r unig ddewis. Weithiau, mae defnyddio sail arall yn fwy priodol ac yn gwarchod y plentyn yn well.

Mae plant yn haeddu gwarchodaeth arbennig pan fyddwch yn defnyddio eu data personol at ddibenion marchnata neu i greu proffiliau personoliaeth neu broffiliau defnyddwyr.
Ni ddylech fel arfer wneud penderfyniadau yn seiliedig ar brosesu awtomataidd yn unig mewn perthynas â phlant os bydd hyn yn cael effaith gyfreithiol neu effaith arwyddocaol debyg arnynt. Dylech ysgrifennu hysbysiadau preifatrwydd clir i blant fel eu bod yn gallu deall beth fydd yn digwydd i'w data personol a pha hawliau sydd ganddynt.
Mae gan blant yr un hawliau ag oedolion mewn perthynas â'u data personol. Mae'r rhain yn cynnwys yr hawliau i gael mynediad at eu data personol; gofyn am ei gywiro; gwrthwynebu prosesu ei data a dileu eu data personol.
Mae hawl unigolyn i ddileu data personol yn benodol berthnasol os ydynt wedi rhoi eu caniatâd i brosesu pan oeddent yn blentyn.

Rhaid i ni hefyd fod yn ofalus os bydd rhiant neu warcheidwad yn rhoi caniatâd ar ran eu plentyn. Bydd ganddynt hawl i dynnu'r caniatâd hwnnw yn ei ôl pan fyddant yn gallu rhoi caniatâd eu hunain.

**Tynnu caniatâd yn ôl.**

Os bydd gwrthrych y data yn tynnu eu caniatâd yn ei ôl, rhaid dileu eu gwybodaeth bersonol *sydd wedi cael ei defnyddio ar ôl derbyn caniatâd* yn unol â'r atodlen gadw.

**Atodiad**

## Atodiad A – Rhestr Gyfeirio Caniatâd

### Gofyn am ganiatâd

- ☐ Rydym wedi gwirio mai'r caniatâd yw'r sail cyfreithiol mwyaf priodol ar gyfer prosesu data.
- ☐ Rydym wedi gwneud cais am ganiatâd yn amlwg ac ar wahân i'r telerau ac amodau.
- ☐ Rydym yn gofyn i bobl ymuno yn gadarnhaol.
- ☐ Ni ddefnyddir bocsys wedi'u ticio'n barod, neu unrhyw ganiatâd arall yn ddiofyn.
- ☐ Rydym yn defnyddio iaith glir ac eglur sy'n hawdd i'w ddeall.
- ☐ Nodwn y rheswm pam ein bod eisiau'r data a'r hyn fyddwn ni'n ei wneud â'r data.
- ☐ Rydym wedi enwi CBSC ac unrhyw drydydd parti a fydd yn dibynnu ar y caniatâd.
- ☐ Rydym yn dweud wrth unigolion fod modd iddyn nhw dynnu eu caniatâd yn ôl ac yn dweud wrthyn nhw sut i wneud hynny.
- ☐ Rydym yn sicrhau fod yr unigolyn yn gallu gwrthod rhoi caniatâd heb unrhyw ragfarn.
- ☐ Nid ydym yn gwneud caniatâd yn rhag-amod y gwasanaeth.
- ☐ Os ydym yn cynnig gwasanaethau ar-lein yn uniongyrchol i blant, rydym yn gofyn am ganiatâd os oes gennym fesurau dilysu oed a chaniatâd rhiant yn eu lle.

### Cofnodi caniatâd

- ☐ Rydym yn cadw cofnod o bryd a sut y derbyniwyd caniatâd gan yr unigolyn.
- ☐ Rydym yn cadw cofnod o'r union hyn y dywedwyd ar yr amser hynny.

### Rheoli Caniatâd

- ☐ Rydym yn adolygu caniatâd yn rheolaidd i wirio fod y berthynas, y broses a'r diben heb newid.
- ☐ Mae gennym brosesau yn eu lle i adfywio caniatâd ar gyfnodau priodol gan gynnwys unrhyw ganiatâd rhiant.
- ☐ Rydym yn ei gwneud yn hawdd i unigolion i dynnu eu caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, a chyhoeddi sut i wneud hynny.
- ☐ Mae gennym weithdrefnau ysgrifenedig yn eu lle pan fydd y caniatâd yn cael ei dynnu'n ôl.
- ☐ Rydym yn gweithredu ar ganiatâd yn cael ei dynnu'n ôl ar unwaith.
- ☐ Ni fyddwn yn cosbi unigolion sydd yn dymuno tynnu eu caniatâd yn ôl.